Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i wallau yn O.S. 2024/924 (Cy. 151), O.S. 2024/929 (Cy. 154) ac yn O.S. 2024/930 (Cy. 155) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2024 Rhif 1258 (Cy. 211)

# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Gwnaeth Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ganlyniadol ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud mân ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n cywiro gwallau, neu'n egluro darpariaeth a wnaed, yn y Rheoliadau hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024 a Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979.

Mae rheoliad 3 yn diwygio Gorchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Esemptio) 1984.

Mae rheoliad 4 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992. Maent yn egluro sut y mae Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

2024 yn gweithredu pan fo cais wedi ei wneud o dan y ddwy set o Reoliadau.

Mae rheoliadau 5 i 7 yn gwneud diwygiadau i'r Rheoliadau a ganlyn er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg—

- Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009,
- Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012, a
- Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016,

yn y drefn honno.

Mae rheoliad 8 yn ail-wneud diwygiad i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015 fel bod rhestr o ddeddfwriaeth sylfaenol mewn trefn gronolegol.

Mae rheoliad 9 yn egluro diwygiad i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017.

Mae rheoliad 10 yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024 sy'n ganlyniadol ar reoliadau 2 a 3 o'r Rheoliadau hyn.

Mae rheoliad 11 yn diwygio testun Cymraeg Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024 er mwyn cywiro gwall.

Mae rheoliad 12 yn diwygio testun Saesneg Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024 er mwyn cywiro gwall.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Gwnaed yr Offeryn Statudol hwn o ganlyniad i wallau yn O.S. 2024/924 (Cy. 151), O.S. 2024/929 (Cy. 154) ac yn O.S. 2024/930 (Cy. 155) ac fe'i dyroddir yn rhad ac am ddim i bawb y gwyddys iddynt gael yr Offerynnau Statudol hynny.*

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2024 Rhif 1258 (Cy. 211)

# YR AMGYLCHEDD HANESYDDOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *26 Tachwedd 2024* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *29 Tachwedd 2024* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2024* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 26(5)(b), 91(1) a (2), 92(2), 96, 97, 209(2), 211(3)(a) a (4) o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023([1]), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

## RHAN 1

### Enwi a dod i rym

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Amgylchedd Hanesyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Rhagfyr 2024.

(**1**) 2023 dsc 3.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

## RHAN 2

### Diwygiadau

**Rheoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979**

**2.** Yn Atodlen 2 i Reoliadau Coedwigaeth (Cwympo Coed) 1979(**1**), ym mharagraff (i), ar ôl "1990" mewnosoder "or under section 158 of the Historic Environment (Wales) Act 2023".

**Gorchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Esemptio) 1984**

**3.** Yn erthygl 1(2) o Orchymyn Ardaloedd o Bwysigrwydd Archaeolegol (Hysbysiad o Weithrediadau) (Esemptio) 1984(**2**), hepgorer "or Wales".

**Rheoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992**

**4.** Yn Atodlen 1A i Reoliadau Ceisiadau Trafnidiaeth a Gweithfeydd (Gweithdrefn Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth a Henebion Hynafol) 1992(**3**), ym mharagraff 1—

(a) yn is-baragraff (e), yn lle'r geiriau o "after paragraph (3)" hyd at "yw—" rhodder "in regulation 6, after paragraph (5) there were inserted—

"(6) At ddiben y rheoliad hwn—

ystyr "cais cydredol" ("*concurrent application*") yw cais a wneir o dan adran 6 o Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992, sy'n ymwneud â chynigion y mae rhoi cydsyniad adeilad rhestredig neu gydsyniad ardal gadwraeth yn ofynnol ar eu cyfer;

ystyr perchennog ("*owner*") yw—";

(b) yn is-baragraff (f), yn lle'r geiriau o "after paragraph (3)" hyd at "means—" rhodder "in regulation 6, after paragraph (5) there were inserted—

"(6) For the purposes of this regulation—

"concurrent application" ("*cais cydredol*") means an application made under section 6 of the Transport and Works Act 1992,

---

(**1**) O.S. 1979/791, a ddiwygiwyd gan O.S. 1987/632 ac O.S. 2002/226; mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 1984/1286.

(**3**) O.S. 1992/3138, a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/930 (Cy. 155); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

relating to proposals for which the granting of listed building consent or conservation consent is required;

"owner" ("*perchennog*") means—";

(c) yn is-baragraff (i)(iii), ym mharagraff (5) a fewnosodwyd, yn lle'r geiriau o "ystyr "cais cydredol"" hyd at y diwedd, rhodder "mae i "cais cydredol" yr un ystyr ag yn rheoliad 6.";

(d) yn is-baragraff (j)(iii), ym mharagraff (5) a fewnosodwyd, yn lle'r geiriau o "means" hyd at y diwedd, rhodder "has the same meaning as in regulation 6."

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009**

**5.** Yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Adolygiadau Amhenderfynedig o Hen Ganiatadau Mwynau) (Cymru) 2009(**1**), yn y testun Cymraeg, yn is-baragraff (dd) o'r diffiniad o "ardal sensitif", yn lle "yn yr ystyr a roddir i "scheduled monument" yn" rhodder "o fewn ystyr".

**Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012**

**6.** Yn Atodlen 4 i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012(**2**), yn y testun Cymraeg, ar ôl y tabl, o dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", ym mharagraff (h)(i), yn lle "yr ystyr a roddir i "scheduled monument"" rhodder "("*scheduled monument*") yr un ystyr ag".

**Gorchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016**

**7.** Yn Atodlen 5 i Orchymyn Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Gweithdrefn) (Cymru) 2016(**3**), yn y testun Cymraeg, ar ôl y tabl, o dan y pennawd "Dehongli'r Tabl", ym mharagraff (d)(i), yn lle "yr un ystyr ag a roddir i "scheduled monument"" rhodder "("*scheduled monument*") yr un ystyr ag".

---

(**1**) O.S. 2009/3342 (Cy. 293), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/924 (Cy. 151); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2012/801 (Cy. 110); mae'r diwygiadau perthnasol i'w cael yn O.S. 2016/59 (Cy. 29) ac O.S. 2024/924 (Cy. 151).

(**3**) O.S. 2016/55 (Cy. 25); mae'r diwygiadau perthnasol i'w cael yn O.S. 2019/290 (Cy. 68) ac O.S. 2024/924 (Cy. 151).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015**

**8.** Yn Rhan 2 o Atodlen 2 i Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Partïon a chanddynt Fuddiant a Darpariaethau Rhagnodedig Amrywiol) 2015(**1**)—

(a) hepgorer y cofnod ar gyfer "Historic Environment (Wales) Act 2023" a'r testun yn y golofn gyfatebol;

(b) ar ôl y cofnod ar gyfer "Countryside and Rights of Way Act 2000", mewnosoder—

| | |
|---|---|
| "*Historic Environment (Wales) Act 2023* | A consent under section 12 and Schedule 3 (authorisation of classes of works) |
| | A consent under section 13 (authorisation of works by scheduled monument consent)". |

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017**

**9.** Yn rheoliad 4A o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017(**2**)—

(a) yn lle "reoliadau 4" rhodder "reoliad 4";

(b) yn lle "na 5" rhodder "na rheoliad 5".

**Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024**

**10.** Yn Rheoliadau Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 (Darpariaeth Ganlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2024(**3**), hepgorer rheoliadau 2 a 6, a'r penawdau italig o'u blaenau.

**Rheoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024**

**11.** Yn rheoliad 3(5)(b) o Reoliadau Henebion Cofrestredig (Cytundebau Partneriaethau) (Cymru) 2024(**4**), yn y testun Cymraeg, yn lle "fuddiant" rhodder "ddiddordeb".

---

(**1**) O.S. 2015/462, a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/924 (Cy. 155); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) O.S. 2017/544 (Cy. 121), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/924 (Cy. 155).

(**3**) O.S. 2024/924 (Cy. 151).

(**4**) O.S. 2024/929 (Cy. 154).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Rheoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024**

**12.** Yn Atodlen 2 i Reoliadau Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth (Gweithdrefn a Chyfradd Llog) (Cymru) 2024(**1**), yn y testun Saesneg, ym mharagraff 6—

(a) yn y geiriau o flaen is-baragraff (a), hepgorer "that the building and the associated land";

(b) ar ddechrau paragraff (a), mewnosoder "that the building and the associated land";

(c) ar ddechrau paragraff (b), mewnosoder "that the building and the associated land".

*Jack Sargeant*
Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, un o Weinidogion Cymru
26 Tachwedd 2024

(**1**) O.S. 2024/930 (Cy. 155).